

## Argymhellion y Tasglu Coed a Phren

### Crynodeb

#### **Perchenogion tir/y gymuned yn penderfynu plannu coed**

Y 12 mis nesaf:

- Cymorth newydd er mwyn caniatáu i bobl yng Nghymru blannu coed.
- Cyhoeddi canllawiau hawdd eu defnyddio ar blannu coed.
- Nodi safleoedd newydd ar gyfer y Goedwig Genedlaethol.
- Gweithgor i ystyried modelau ar gyfer denu buddsoddiad.

Tymor y Senedd hon:

- Swyddogion rhanbarthol newydd coetiroedd cymunedol
- Nodi manau ar yr ystad gyhoeddus ac mewn ardaloedd trefol lle gellir plannu coed.

#### **Perchenogion tir a chymunedau yn cynllunio ac yn paratoi i blannu**

Y 12 mis nesaf:

- Cyfnod ymgeisio newydd ar gyfer cynllun Creu Coetir Glastir
- CNC yn mabwysiadu dulliau gymorth
- Proses wirio gyflym ar gyfer cynlluniau coetir risg isel a system lle gall cynllunwyr coetiroedd ennill cydnabyddiaeth.
- Cynllun newydd i gyllido gwaith datblygu ar gynlluniau coetir newydd.
- Cynllun newydd, a fydd ar gael gydol y flwyddyn, i gyllido gwaith creu coetiroedd.

Tymor y senedd hon:

- Gweithgor ar sut i leihau'r baich sy'n gysylltiedig ac ymgynghoriadau gorffodol.
- Cymorth ar gyfer plannu perthi a lleiniau ymyl ar ffermydd.
- Cymorth newydd ar gyfer creu a rheoli coetiroedd drwy'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy newydd.

Y 12 mis nesaf:

- Gweithgor yn bwrw ymlaen â gwaith i ddatblygu strategaeth ddiwydiannol ar gyfer pren er mwyn cydgyssylltu'r cyflenwad a'r galw am bren ac i nodi cyfleoedd a fydd yn ychwanegu gwerth sylweddol i'r sector coedwigaeth yng Nghymru.
- Nodi sut y bydd CNC yn cyflwyno ffyrdd amgen o werthu pren.

#### **Y cyflenwad o goed a sgiliau yn y sector coedwigaeth**

Y 12 mis nesaf:

- Gweithio gyda meithrinfeydd planhigion i sicrhau cyflenwad o goed yn y dyfodol.
- Rhoi cymorth i gynyddu capasiti drwy'r Cynllun Buddsoddi mewn Busnesau Pren.

Tymor y Senedd hon:

- Rhoi cymorth i ddatblygu'r sgiliau sydd eu hangen ar gyfer gyrfaoedd newydd yn y sector coedwigaeth.

#### **Rheoli coetiroedd**

Y 12 mis nesaf:

- Grant newydd Buddsoddi mewn Coetiroedd y Goedwig Genedlaethol

Tymor y Senedd hon:

- Ei gwneud yn haws i grwpiau cymunedol i gael gafael ar bren ar Ystad Llywodraeth Cymru.
- Nodi ffyrdd o drefnu bod coetiroedd sy'n bodoli eisoes yn cael eu rheoli.

#### **Diogelu coetiroedd a choed**

- Nid yw hyn o fewn cwrpas yr ymarfer hwn ond mae'n elfen bwysig o bolisi Llywodraeth Cymru ar goedwigaeth.

## Rhestr o Argymhellion

### Y cynllun ffermio cynaliadwy

<p>Argymhellion y mae angen gwneud gwaith dilynol arnynt</p>	<p>1. Mae'r archwiliad dwfn wedi arwain at nifer o argymhellion ar gyfer y Cynllun Ffermio Cynaliadwy newydd ac arfaethedig:</p> <ul style="list-style-type: none"><li>• Sicrhau bod unrhyw gynllun yn y dyfodol a fydd yn darparu cyfalaf i blannu coed yn cael ei integreiddio â'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy fel y bo ffermwyr yn gallu cael gafael ar gyllid cyfalaf.</li><li>• Dylai'r cynllun arfaethedig sicrhau nad yw tiffeddianwyr yn colli taliadau am blannu coed.</li><li>• Dylai sgysiau gael eu cynnal gyda phob ffermwr ynghylch y cyfleoedd sy'n bodoli ar gyfer plannu coed sy'n addas i'w tir nhw.</li><li>• Dylai gwelliannau i'r cyllid presennol ar gyfer creu coetiroedd gael eu cynnwys yn y Cynllun Ffermio Cynaliadwy newydd.</li><li>• Dylai gwasanaethau cynghori yn y dyfodol sicrhau bod rôl amlycach yn cael ei rhoi i gyngor ar goetiroedd er mwyn cefnogi busnesau fferm cynaliadwy a chynhyrchiol.</li><li>• Ystyried y risgiau sy'n gysylltiedig â chynlluniau ar wahân ar gyfer perchenogion tir nad ydynt yn ffermwyr os nad yw'r cynlluniau hynny'n cael eu cynnwys o fewn cwmpas y Cynllun Ffermio Cynaliadwy.</li><li>• Ailedrych ar y categori amaeth-goedwigaeth o dan Creu Coetir Glastir, a'i wella.</li><li>• Mae angen ailedrych ar y rôl y mae adfywio naturiol yn ei chwarae.</li><li>• Mae angen datrys materion sy'n atal ffermwyr sy'n denantiaid rhag plannu coed.</li></ul>
--	--

### Strategaeth Ddiwydiannol ar gyfer Pren

<p>Y camau gweithredu y cytunwyd arnynt</p>	<p>2. Gweithgor newydd a fydd yn cynllunio strategaeth ddiwydiannol ar gyfer pren. Dylai hyn cynnwys pennu camau ag iddynt flaenoriaeth a materion y mae angen mynd i'r afael â nhw ar frys::</p>
---	---

	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Mynd i'r afael â chanfyddiadau am ansawdd pren o Gymru, gan gynnwys cysylltiadau ag arferion coedamaeth a dewis rhywogaethau.</li> <li>• Camau i fynd i'r afael â phryderon am sgiliau a'r cyflenwad o lafur, ac yn arbennig ar gyfer plannu. Dylai hyn gynnwys cefnogi'r gymuned ffermio i ddatblygu'r sgiliau sydd eu hangen i arallgyfeirio i goedwigaeth, ac ystyried camau posibl i ehangu'r prosiect eco-ysgolion er mwyn rhoi rhagor o bwyslais ar goed.</li> <li>• Ymchwil i faint y mae angen ei gynhyrchu er mwyn cael mynd i mewn i farchnadoedd gwahanol ar raddfa fawr, yr angen materol am bren yng Nghymru yn y dyfodol.</li> <li>• Y marchnadoedd sy'n cael blaenoriaeth ym mhob maes adeiladu mewn perthynas â phren o Gymru.</li> <li>• Y rôl sydd gan gymdeithasau tai, awdurdodau lleol, ysgolion a datblygwyr preifat o ran creu galw sefydlog ac o ran dangos arferion da wrth ddefnyddio pren o Gymru.</li> <li>• Rôl newidiol CNC a choetiroedd amrywiol y sector preifat o ran cyflenwi pren.</li> <li>• Y rôl sydd gan weithgynhyrchwyr (fframiau pren a chynhyrchion ar gyfer seiri) o ran ysgogi'r galw am bren cartref â gwerth ychwanegol a chynnig atebion carbon isel.</li> <li>• Y rôl sydd gan broseswyr cynradd (melinau llifio) a sut i greu cymhellion er mwyn ysgogi prosesu sy'n creu gwerth ychwanegol uwch ar gyfer cyflenwi cadwyn gyflenwi'r diwydiant adeiladu.</li> <li>• Y potensial i greu cronfa Economi Gylchol er mwyn cynyddu'r defnydd o bren.</li> </ul>
--	--

### **Perchenogion tir/y gymuned yn penderfynu plannu coed**

<p>Y camau gweithredu y cytunwyd arnynt</p>	<p>3. Cyhoeddi 'galwad i weithredu' er mwyn hyrwyddo a chefnogi newid sylweddol o ran plannu coed. Creu cynghrair i hyrwyddo newid, gan weithio gyda ffermwyr, perchenogion tir, cymunedau a gwirfoddolwyr ledled Cymru.</p> <p>4. Datblygu ffordd o fesur faint o goed sy'n cael eu plannu ac a fydd yn cynnwys yr holl goetiroedd a gaiff eu creu, gan gynnwys coed unigol ac ardaloedd o goetir sy'n llai na 0.25ha.</p> <p>5. Bydd CNC yn gweithio gyda chymunedau a busnesau i nodi safleoedd ar gyfer 30 o goetiroedd newydd a fydd yn rhan o'r Goedwig Genedlaethol.</p> <p>6. Bydd CNC yn cysylltu a thrafod mwy gyda ffermwyr, perchenogion tir a chymunedau i'w hannog i blannu coed a dylai gydgysylltu'r gwaith hwnnw. Dylai gyhoeddi canllawiau</p>
---	--

	<p>hawdd eu defnyddio ar Hyb Creu Coetiroedd. Dylid ysgrifennu'r canllawiau hynny o bersbectif y cwsmer.</p> <p>7. Hwyluso gwaith plannu coed cymunedol, gan gynnwys gofyn i Ystadau Cymru arwain ymarfer i ddod o hyd i mannau newydd lle gellir plannu ar yr ystad gyhoeddus. Nodi ffyrdd i ddinasoedd a threfi fapio mannau priodol ar gyfer plannu coed, gan ddysgu o fentrau tebyg i Belfast One Million Trees.</p> <p>8. Cynnig cymorth newydd i alluogi pobl ledled Cymru i blannu coed yn eu gerddi a'u hardaloedd lleol. Dysgu oddi wrth fentrau sy'n bodoli eisoes, gan gynnwys rhaglen plannu coed Mbale.</p>
<p>Argymhellion y mae angen gwneud gwaith dilynol arnynt</p>	<p>9. Cyllido swyddogion coetiroedd cymunedol rhanbarthol i helpu grwpiau cymunedol yn eu hymwneud â CNC a'r awdurdodau lleol, a chynllunio ar gyfer adnodd mwy hirdymor i gynnal y coetiroedd a gaiff eu creu.</p> <p>10. Atgyfnerthu grwpiau cynghori ar goetiroedd (Panel Cynghori ar y Strategaeth Coetiroedd, Partneriaeth y Diwydiant Coedwigaeth, Fforwm Rheoli Tir Cymru). Dylai'r angen i ddysgu oddi wrth brosiectau llwyddiannus ac enghreifftiau o arloesi y tu allan i Lywodraeth Cymru gael eu cynnwys yng nghylch gorchwyl y Panel Strategol newydd.</p> <p>11. Creu gweithgor newydd a fydd yn mynd ati ar fyrder i ystyried ffyrdd o ddenu buddsoddiad mewn creu coetiroedd a mathau eraill o ddatgarboneiddio fel adfer mawndiroedd. Dylai'r modelau hyn ganiatáu gwrthbwysu heb amharu ar gymunedau nac ar y patrymau perchenogaeth tir sydd eisoes yn bod. Bydd Llywodraeth Cymru yn hwyluso'r gwaith hwn gan ddefnyddio arbenigedd ariannol yn ogystal ag arbenigedd ym maes coedwigaeth. Dylai gynnwys gwersi a ddysgwyd oddi wrth gynlluniau ynni adnewyddadwy cymunedol.</p> <p>12. Ystyried yr angen am gorff cydgysylltu newydd i gefnogi gwaith plannu coed gan ffermwyr, perchenogion tir a chymunedau, a'r defnydd o'r pren a dyfir, gan ddysgu oddi wrth waith Coillte yn Iwerddon ond gan gydnabod ar yr un pryd y gwahaniaethau yng nghyd-destun Cymru.</p>

### Y cyflenwad o goed a sgiliau

<p>Y camau gweithredu y cytunwyd arnynt</p>	<p>13. Dylai cynrychiolwyr Llywodraeth Cymru weithio gyda grŵp meithrinfeydd planhigion Confor (y Cydffederasiwn Diwydiannau Coedwigoedd) yn ogystal â meithrinfeydd cymunedol a rhai ar raddfa fach i sicrhau y cyflenwad o goed yn y dyfodol. Dylai hyn adlewyrchu'r angen i addasu rhywogaethau coed yn sgil effeithiau'r newid yn yr hinsawdd. .</p>
---	--

	<p>14. Annog dull arloesol o weithredu a fydd yn manteisio ar yr ymchwil ddiweddaraf ar rywogaethau addas a choedamaeth, gan ystyried yr angen i ymaddasu i newid hinsawdd.</p> <p>15. Rhoi cymorth i feithrin mwy o gapasiti plannu coed drwy gynlluniau fel y Cynllun Buddsoddi mewn Busnesau Pren.</p> <p>16. Sicrhau bod y gwaith ar y strategaeth ddiwydiannol ar gyfer pren a'r gwaith ar sgiliau adeiladu gwyrdd yn cael eu cydgysylltu.</p>
--	---

### **Cynllunio coetiroedd a phlannu coed**

<p>Y camau gweithredu y cytunwyd arnynt</p>	<p>17. Dylai swyddogion CNC newid eu ffordd o weithio a mynd ati i weithio ar sail allgymorth – gan weithio ar y safle o dan sylw a rhoi cefnogaeth er mwyn cael pethau'n iawn o'r cychwyn cyntaf. Bydd y gwaith hwn yn cynnwys mynd ati i drafod yn rhagweithiol â chynllunwyr cyn y cam ymgeisio.</p> <p>18. Ar gyfer cynlluniau coetir risg isel (sydd o dan y trothwy ar gyfer AEA (asesiad o'r effaith amgylcheddol) lle mae'r cynllun mewn ardal nad yw'n un sensitif ar y Map Cyfleoedd Coetir), dylai gwaith gwirio cynlluniau gael ei wneud wrth y ddesg, a dim ond sampl o safleoedd (1:10) y dylid ymweld â nhw neu wneud rhagor o waith asesu arnynt.</p> <p>19. Newid i system lle bydd cynllunwyr coetiroedd yn 'ennill cydnabyddiaeth' a lle byddwn yn ymddiried yn fwy mewn cynllunwyr i gynllunio yn unol ag UKFS (Safon Coedwigaeth y DU) heb inni bennu ofynion gorfodol, ond lle mae cosbau clir os nad yw cynlluniau'n bodloni'r safon.</p> <p>20. Gofyn i CNC sicrhau bod swyddogion Rheoliadau Coedwigaeth yn cael eu rhoi yn eu lle ar fyrder yn y Gogledd a'r De er mwyn iddynt fedru prosesu mewn ffordd amserol a mwy syml.</p> <p>21. Grymuso swyddogion CNC i wneud penderfyniadau ar gynlluniau coetiroedd sy'n cael eu herio fel y bo'r sefydliad cyfan yn gweithio mewn ffordd gydnaws er mwyn mynd i'r afael â'r angen dybryd i greu rhagor o goetiroedd. Sicrhau bod yr arbenigedd cywir ar gael o fewn y sefydliad i ganiatáu hynny.</p>
<p>Argymhellion y mae angen gwneud gwaith dilynol arnynt</p>	<p>22. Rhoi cymorth i blannu perthi a lleiniau ymyl ar ffermydd drwy addasu cynllun Grantiau Bach presennol Glastir, gan gynnwys ystyried trothwy uwch hyd at 1.99 hectar.</p> <p>23. Rhoi sicrwydd yn y tymor hwy am y gyllideb creu coetiroedd, gan gynnwys ystyried y rhwymedigaethau nas ariennir a grëwyd gan 12 mlynedd o daliadau refeniw. Pennu hyd a lled y gofynion o ran adnoddau dynol a lle y dylid lleoli'r adnoddau hynny.</p>

	<p>24. Cyflwyno cyfnod ymgeisio arall ar gyfer 'Creu Coetir Glastir 11' er mwyn sicrhau bod y gyllideb lawn a ddyrennir ar gyfer plannu coed yn cael ei gwario.</p> <p>25. Cyflwyno cynllun newydd ar gynllunio i greu coetiroedd a fydd yn cyllido'r gwaith o greu a gwirio cynlluniau coetiroedd newydd er mwyn creu cyfres o brosiectau parod, a lle bydd cynlluniau a gymeradwyir yn gymwys i gael cyllid oddi wrth Llywodraeth Cymru am y 5 mlynedd nesaf.</p> <p>26. Lansio cynllun peilot ar gyfer y cynllun plannu coetiroedd sy'n darparu cymorth ar gyfer cynlluniau sy'n cynnwys o leiaf 500 hectar o goetiroedd. Datblygu rheolau'r cynllun peilot er mwyn symleiddio prosesau dilysu a phrofi'r defnydd o wahanol fodolau.</p> <p>27. Cyflwyno cynllun cyllido newydd ar gyfer creu coetiroedd sy'n adeiladu ar Creu Coetir Glastir ond a fydd yn cael ei symleiddio ac a fydd ar gael yn gyson drwy gydol y flwyddyn.</p> <p>28. Sefydlu gweithgor i ystyried sut i leihau'r baich sy'n gysylltiedig â'r gofynion gorfodol i ymgynghori â'r cyhoedd ac i ymgynghori â chyrff anllywodraethol sy'n gweithio ym maes yr amgylchedd a threftadaeth. Dylid ystyried cyhoeddi pob cynllun coetir ar gofrestr gyhoeddus am 28 diwrnod pan gaiff ei gyflwyno i CNC, gan wneud gwell defnydd o'r timau seiliedig ar leoedd sydd gan CNC, a datblygu ffordd o weithio a fydd yn rhoi mwy o bwyslais ar gytundeb nag ar wrthdaro.</p> <p>29. Dylid adolygu ymhellach y lleiniau clustogi o amgylch SoDdGA ac AGA er mwyn sicrhau nad ydynt yn creu unrhyw feichiau diangen.</p>
--	---

### **Rheoli coetiroedd**

<p>Y camau gweithredu y cytunwyd arnynt</p>	<p>30. Cyflwyno grant Buddsoddi yng Nghoetiroedd y Goedwig Genedlaethol ym mis Gorffennaf i gyllido coetiroedd newydd a gwelliannau i goetiroedd sy'n bodoli eisoes.</p>
<p>Argymhellion y mae angen gwneud gwaith dilynol arnynt</p>	<p>31. Ei gwneud yn haws i grwpiau cymunedol gael gafael ar bren o Ystad Llywodraeth Cymru, gan adeiladu ar ganfyddiadau'r gweithgor. Dylai CNC weithio gyda Thrysorlys Llywodraeth Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru i ddatblygu fframwaith a fydd yn galluogi CNC i werthu pren y tu allan i'r system arwerthiannau er mwyn darparu manteision cymdeithasol gwerth uwch, a hynny'n unol ag ymrwymiad diweddar Swyddfa Archwilio Cymru i gefnogi gwelliannau mewn camau sy'n ymateb i'r newid yn yr hinsawdd.</p> <p>32. Datblygu ffyrdd o roi cefnogaeth er mwyn troi coetiroedd nad ydynt yn cael eu rheoli yn goetiroedd sydd mewn cyflwr economaidd ac amgylcheddol da. Dylid hefyd ystyried yr opsiynau yn y strategaeth ddiwydiannol ar gyfer darparu mwy</p>

	o ffyrdd i gyrraedd y farchnad, ac ystyried sut i fynd ati i weithredu ar raddfa fwy.
--	---

### **Cynaeafu pren a'i ddefnyddio ym maes adeiladu**

<p>Argymhellion y mae angen gwneud gwaith dilynol arnynt</p>	<p>33. Sicrhau bod cyn lleied â phosibl o garbon yn crynhoi (fel rhan o asesiad Carbon Gydol Oes) drwy fynnu bod carbon sy'n crynhoi yn cael ei fesur ac yna addasu targedau ynghylch allyriadau carbon ar gyfer adeiladau newydd.</p> <p>34. Edrych yn fanylach ar opsiynau a manteision posibl datganiad cynnyrch amgylcheddol ar gyfer pren o Gymru a sut y byddai hynny'n gweithio'n ymarferol.</p> <p>35. Cefnogi'r Sector Gweithgynhyrchu Fframiau Pren.</p> <p>36. Mynd ati i annog a hwyluso buddsoddiad mewn gweithgynhyrchu ag iddo werth ychwanegol (ee Glulam, inswleiddio ffeibr pren a ffenestri pren) fel rhan o'r strategaeth ddiwydiannol ar gyfer pren.</p> <p>37. Ystyried opsiynau i dalu am Waredu Nwyon Tŷ Gwydr o bren ym maes adeiladu.</p> <p>38. Defnyddio'r rhaglen cyflenwi tai cymdeithasol i systemeiddio'r defnydd o bren.</p> <p>39. Nodi sut y bydd CNC yn mynd ati i gyflwyno ffyrdd amgen o werthu coed .</p>
--	--